

COD YMARFER AR DDATGELU DIDDORDEB CYHOEDDUS (CHWYTHU'R CHWIBAN)

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwmo i fod yn agored, yn onest ac yn atebol i'r graddau uchaf. Mae'n ceisio cynnal ei fusnes mewn modd cyfrifol gan ystyried gofynion y cyrff ariannu a'r safonau bywyd cyhoeddus sydd wedi'u nodi yn adroddiadau Pwyllgor Nolan.
- 1.2 Daeth Deddf Datgelu Diddordeb Cyhoeddus 1988 i rym ar 1 Ionawr 1999 ('y Ddeddf'), ac mae'n rhoi amddiffyniad cyfreithiol i weithwyr yn erbyn cael eu diswyddo neu eu cosbi gan gyflogwyr o ganlyniad i ddatgelu pryderon penodol sydd er budd y cyhoedd, mewn amgylchiadau priodol. Mae hefyd yn eu diogelu rhag bwlio ac aflonyddu gan gydweithwyr naill ai drwy weithredoedd neu hepgoriadau o ganlyniad i wneud datgeliad.

2. Cwmpas y Cod Ymarfer

- 2.1 Nid yw'r Ddeddf yn amddiffyn cyn belled â myfyrwyr a phobl eraill nad ydynt yn cael eu cyflogi. Fodd bynnag mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwmo i amddiffyn yr holl rai sy'n codi pryderon er budd y cyhoedd. Mae'r Cod Ymarfer hwn yn amddiffyn staff, myfyrwyr, aelodau lleig o Bwyllgorau a Chynghorau'r Brifysgol, a'r rhai sydd â threfniadau cytundebol gyda'r Brifysgol sy'n codi pryderon o'r fath. (o hyn ymlaen y cyfeirir atynt fel "datgelwyr"). Ar ben hynny, byddwn yn amddiffyn yn erbyn aflonyddu a bwlio gan aelodau o grwpiau ychwanegol.
- 2.2 Bwriad y cod yw cynnig modd i amddiffyn yr unigolion rheiny sydd yn datgelu fel sydd wedi'i ddiffinio ym mharagraff 3.1. isod, cyhyd ag y gwneir datgeliad:

- Er budd y cyhoedd
- I berson/corff priodol

O gredu'r datgelwr yn rhesymol fod y datgeliad yn ffeithiol gywir. 2.3 Ei fod hefyd yn rhoi cyfle i'r Brifysgol gynnal ymchwiliad mewnol llawn o gwynion o'r fath a chymryd camau priodol.

- 2.4 Mae'n rhesymol disgwyl i ddatgeliadau ddefnyddio'r Cod Ymarfer hwn lle bo'n bosibl yn hytrach na mynegi eu cwynion y tu allan i'r Brifysgol.
- 2.5 Ni fydd y rhai sy'n gwneud datgeliad gwarchoddedig unol â'r Cod hwn yn destun achos disgyblu neu anfantais/gosb arall o ganlyniad i ddatgelu. Fodd bynnag, os gwneir datgeliadau o dan y Cod hwn yn ddisylwedd, yn flinderus neu'n faleisus, gellir gwrthod y datgeliad a gallai'r Brifysgol gymryd camau yn erbyn y datgelwr.

3. Pa fath o bryderon a ddylid rhoi gwybod amdanynt o dan y cod?

- 3.1 Mae pryderon sydd er budd y cyhoedd ac o dan sylw yn y Cod Ymarfer hwn yn cynnwys y canlynol (o hyn ymlaen cyfeirir atynt fel 'datgeliadau cymwys'):

Camweinyddu ac amhriodoldeb ariannol a chamweinyddu ac amhriodoldeb nad yw'n ariannol, twyll.

Llwgrwobrwyo (rhoi neu dderbyn llwgrwobrwyon).

Gweithgarwch troseddol.

Torri rhwymedigaeth gyfreithiol.

Camwedd cyfiawnder.

Peryglu iechyd a diogelwch.

Niwed i'r amgylchedd.

Rhwystro Rhyddid Academaidd.

Methiant i gydymffurfio â rheoliadau, erlyniadau a statudau'r Brifysgol.

Camymddwyn academaidd neu broffesiynol.

Methiant i ddatgelu gwrthdaro buddiannau difrifol.

Cam-drin neu gamddefnyddio Eiddo'r Brifysgol.

Ymddygiad amhriodol neu ymddygiad anfoesegol.

Cynorthwyo, annog neu oddef unrhyw rai o'r datgeliadau cymwys

Ceisio cuddio unrhyw un o'r uchod.

- 3.2 At ddiben y Cod hwn, bydd y Brifysgol hefyd yn ystyried y bydd datgeliad o weithgareddau eraill a fyddai'n dwyn anfri ar enw d a phwysigrwydd Prifysgol Caerdydd yn cael ei drin fel 'datgeliad cymwys.'

4. Pa bryderon na ddylid rhoi gwybod amdanynt o dan y cod hwn.

- 4.1 Materion sydd eisoes yn cael sylw o dan weithdrefnau priodol yn y Brifysgol:

Gweithdrefnau Disgyblu Staff.

Gweithdrefnau Cwyno.

Gweithdrefn Gwyno Myfyrwyr.

Gweithdrefn Camymddygiad Ymchwil Academaidd (staff).

Apeliadau Academaidd.

Disgyblu Myfyrwyr.

Aflonyddu (Urddas yn y Gwaith a Pholisi Myfyrwyr.)

NI ddylid defnyddio'r cod hwn i ail agor adolygiad i fater sydd eisoes wedi cael ei ystyried ac wedi dod i ben o dan weithdrefnau o'r math.

5. Cyfrinachedd

- 5.1 Dylid cadw cyfrinachedd gan y person y gwneir y datgeliad iddo, cyn belled ag sydd yn bosibl yn y Cod hwn. Lle mae angen ymchwiliad ffurfiol, bydd datgeliadau sy'n 'achosi pryder' (fel sydd wedi'i ddiffinio yn Adran III paragraff 5.1 yn Neddfiad 12) am aelod academaidd o staff yn cael eu

cyfeirio at y Gwasanaeth Proffesiynol/Pennaeth Ysgol perthnasol, ynghyd ag enw'r person sy'n gwneud y datgeliad ('y datgelwr'), lle mae hyn yn hysbys.

- 5.2 Tra gwneir pob ymdrech i gadw cyfrinachedd, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl er mwyn gwarantu anhysbysrwydd y datgelwr yn enwedig os bydd camau disgyblu neu gamau eraill yn cael eu cymryd o ganlyniad i'r ymchwiliad.
- 5.3 Ni fydd y person sydd yn destun i'r datgeliad yn cael gwybod pwy wnaeth y datgeliad heb i'r datgelwr gael ei hysbysu gyntaf. Bydd datgelwr sy'n dymuno bod yn hysbys i'r rhai sydd yn ymchwilio'r datgeliad yn unig yn cael cynnig i dynnu'r datgeliad yn ei ôl pe byddai parhau gyda'r ymchwiliad yn arwain o reidrwydd at y person(au) sydd yn destun i'r datgeliad yn cael gwybod pwy wnaeth y datgeliad.

6. Datgeliadau Dienw

- 6.1 Mae'r Cod Ymarfer hwn yn annog datgelwyr i roi eu henwau i unrhyw ddatgeliadau a wnânt. Mae datgeliadau a fynegir yn ddiennw yn llawer llai pwerus ond byddan nhw'n cael eu hystyried yn ôl disgresiwn y Brifysgol. Bydd datgelwr sy'n gwneud datgeliad diennw yn unol â'r Cod hwn ac yn datgelu ei hunaniaeth wedi hynny yn cael ei amddiffyn yn unol â'r Cod hwn o hyd.

7. Gweithdrefn Datgelu

- 7.1 Dylid dilyn y weithdrefn ganlynol gan y rhai sy'n dymuno gwneud datgeliad fel sydd wedi'i ddiffinio ym mharagraff 6 uchod. (Gweler hefyd paragraff 14 isod parthed datgelu allanol).

8. I bwy y dylid gwneud datgeliad?

- 8.1 Yn y lle cyntaf, dylid gwneud datgeliad i'r Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Cyngor. Os ystyrir am unrhyw reswm fod hyn yn amhriodol, dylid gwneud y datgeliad i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.*
- 8.2 Cyfeirir at y person y gwneir y datgeliad iddyn nhw o hyn ymlaen fel 'recordydd'.
- 8.3 Dylai unrhyw aelod o staff sy'n derbyn datgeliad cymwys fel sydd wedi'i ddiffinio yn Adran 3 uchod ei gyfeirio at y Prif Swyddog Gweithredu neu Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn unol ag adran 8.1 uchod.

9. Y Cam Anffurfiol

- 9.1 Unwaith y bydd datgeliad wedi'i wneud, bydd y recordydd:
 - (a) Yn gwneud cofnod o'i dderbyn a pha gamau dilynol sy'n cael eu cymryd;
 - (b) Yn cynnal adolygiad rhagarweiniol o'r datgeliad gyda'r bwriad o bennu a oes unrhyw sylwedd iddo, neu benodi person neu bersonau i wneud hynny yn ei le/lle.
 - (c) Adrodd yn ôl i'r datgelwr a nodi a yw ef/hi:
 - i. Yn ymchwilio'r datgeliad ymhellach;

- ii. Wedi ymchwilio'r datgeliad ac wedi cymryd camau perthnasol;
- iii. Wedi tynnu'r datgeliad i sylw person(au) a enwir a chanddo (ganddynt) yr awdurdod i weithredu ar y mater;
- iv. Wedi gwrthod y datgeliad gad nad oedd unrhyw sail ar gyfer ymchwiliad. Os yw'r datgeliad yn cael ei wrthod heb ymchwiliad, bydd y datgelwr yn cael gwybod (gan gynnwys y rhesymau dros wrthod y datgeliad). Bydd ef/hi yn cael y cyfle i ailadrodd y datgeliad ar un achlysur pellach i berson priodol arall fel sydd wedi'i ddiffinio ym mharagraff 8.

10. Staff Academaidd

- 10.1 Lle mae'r recordydd yn ystyried fod y datgeliad yn 'achosi pryder/', fel sydd wedi'i ddiffinio yn Adran III, paragraff 5.1 yn Neddfiad 12, am aelod o staff academaidd gallai ef/hi gyfeirio'r datgeliad at y Pennaeth Ysgol/Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol, a fydd yn ei ystyried yn unol â'r gweithdrefnau hynny.

11. Gweithdrefnau/Polisiâu Eraill

- 11.1 Lle cred y recordydd fod y datgeliad yn codi pryderon a fyddai'n dod o dan gylch gwaith unrhyw weithdrefn disgyblu arall y Brifysgol yna gallai ef/hi gyfeirio'r mater at y Pennaeth Ysgol/Gwasanaeth Proffesiynol perthnasol i'w ystyried o dan y gweithdrefnau hynny; lle mae gweithdrefnau'n bodoli'n barod ar gyfer ymchwilio honiadau penodol e.e. Polisi Llwgrwobrwyo/Ymchwilio i Afreoleidd-dra Ariannol bydd y recordydd yn cyfeirio'r datgeliad at y personau/corff perthnasol o dan y gweithdrefnau hynny.
- 11.2 Lle y cyfeirir y datgeliad at berson(au)/corff arall bydd y datgelwr yn cael gwybod p'un a fydd camau pellach yn cael eu cymryd.

12 Ymchwiliad Ffurfiol

- 12.1 Lle gwneir datgeliad am unigolyn nad yw'n dod o dan y darpariaethau a bennir ym mharagraff 11 uchod a bod angen ymchwiliad ffurfiol, bydd y canlynol yn berthnasol:
 - .1 Bydd y Recordydd yn rhoi gwybod i'r person neu'r personau sydd yn destun i'r datgeliad o sylwedd y datgeliad ac unrhyw dystiolaeth i'w gefnogi.
 - .2 Bydd y Recordydd yn cynnig cyfweld y person neu'r personau sy'n destun i'r datgeliad, a allai gael cwmni cynrychiolydd o'r undeb llafur neu gydweithiwr.
 - .3 Yn dilyn y cyfweiliad bydd y Recordydd yn llunio adroddiad o'i ganfyddiadau/chanfyddiadau gan gynnwys awgrymiadau o gamau pellach i'w cymryd, os oes angen cymryd rhai. Bydd unrhyw argymhelliad yn cael ei gyfeirio at y swyddogion/adran briodol i'w gweithredu. (gall hyn gynnwys camau gweithredu adfer/camau disgyblu).

13. Adrodd ar Ganlyniadau

- 13.1 Ym mhob achos gwneir adroddiad ar ganlyniad unrhyw ymchwiliad gan y person sy'n gyfrifol am yr ymchwiliad i'r Pwyllgor Archwilio. Gwneir yr adroddiad hwn yn fanwl lle mae'r mater yn dod o dan faes y Pwyllgor, ac yn gryno mewn achosion eraill fel modd o ganiatáu'r Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd y weithdrefn.

Mehefin 2014

13.2 Unwaith y bydd datgelwr wedi gwneud datgeliad o dan y weithdrefn hon, ni ddylai hi/ef gyfathrebu'r wybodaeth a roddwyd ar unrhyw gyfrif, neu faterion sy'n codi o'r ymchwiliad, i unrhyw berson neu bersonau allanol o'r Brifysgol, oni bai am fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 14 isod.

14. Datgelu Allanol

14.1 Gall datgelwr sy'n dymuno gwneud datgeliad cymwys i gorff allanol wneud datgeliad o'r fath i'r corff, adran lywodraeth neu asiantaeth briodol, ar yr amod ei fod ef/hi wedi ceisio dilyn y weithdrefn uchod yn y lle cyntaf, ond naill ai:

- .1 nad yw wedi derbyn ymateb neu nad oes unrhyw gamau wedi'u cymryd o fewn cyfnod rhesymol o gychwyn y weithdrefn hon. (Bydd yr hyn gaiff ei ystyried fel cyfnod rhesymol yn amrywio yn unol â difrifoldeb posibl neu wir ddifrifoldeb neu gymhlethdod y datgeliad ond, fel arfer, ni ddylai fod yn fwy nag un mis o'r amser pan wnaed y datgeliad cychwynnol.).
- .2 neu: yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl casgliad y weithdrefn hon ac yn teimlo bod y mater mor ddifrifol fel bod angen datgelu i gorff allanol priodol.

14.2 Lle mae'r datgeliad yn ymwneud â mater o'r fath ddifrifoldeb eithafol a/neu frys fel bod angen gwneud datgeliad allanol i'r heddlu neu gorff priodol, asiantaeth llywodraeth neu adran llywodraeth ar frys, gall y datgelwr fynd ymlaen i wneud hynny.

14.3 Nid yw unrhyw beth o'r Cod Ymarfer hwn yn tynnu hawl unrhyw unigolyn i roi gwybod am amheuaeth o drosedd i'r heddlu, ac nid yw unrhyw beth yn y Cod Ymarfer hwn wedi'i fwriadu i dynnu, neu gael effaith ar dynnu, unrhyw hawl a roddir o dan y Ddeddf.

15. Gweithredu

15.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ddirprwyo unrhyw swyddogion o fewn y weithdrefn, yn ôl yr angen.

15.2 Mae gwybodaeth bellach ar gael gan yr Is-adran Llywodraethu a Chydymffurfio

Mehefin 2014